

Adolygiad Lleol o Wasanaethau Sgrinio'r Fron yn Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)

Cylch Gorchwyl

Pam rydym yn gwneud y gwaith hwn?

Fel rhan o rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru, rydym yn cynnal trosolwg o bob un o Ymddiriedolaethau'r GIG. Felly rydym wedi ymrwymo i wneud gwaith ym mhob un o'r Ymddiriedolaethau yn ystod 2019–20.

Y rheswm dros gynnal adolygiad lleol o Wasanaethau Sgrinio'r Fron yw am fod angen sicrhau bod menywod yn aros cyn lleied o amser â phosibl, fel bod y profiad o gael gwasanaeth sgrinio'r fron yn un da. Mae'n bwysig nodi bod ICC yn sgrinio menywod ansymptomatig a dim ond nifer bach iawn o'r unigolion a gaiff eu hadalw, sy'n cael diagnosis cadarnhaol o ganser y fron yn y pen draw. Felly, bydd unrhyw achosion o oedi wrth dderbyn canlyniadau, i'r mwyafrif helaeth o fenywod, yn ymwneud â chynnydd mewn gorbryder a gofid, yn hytrach nag oedi cyn cael diagnosis a thriniaeth.

Cwmpas a Methodoleg

Bydd yr adolygiad lleol yn asesu'r ffordd y mae ICC yn sicrhau y caiff y broses o sgrinio'r fron ei rheoli'n amserol ar gyfer menywod sy'n cael canlyniad mamogram abnormal. Bydd yn ystyried llwybr y menywod o'r apwyntiad sgrinio cychwynnol, hyd at y cam o wneud penderfyniad ynghylch trosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd i gael triniaeth.

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar Gymru gyfan. Caiff y meysydd canlynol eu hystyried:

- Profiad menywod – bydd hyn yn cynnwys meysydd allweddol megis amseroldeb a derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

- Trefniadau'r gweithlu – gan gynnwys yr ymateb i'r heriau presennol a chynlluniau yn y dyfodol / modelau darparu gwasanaeth, strwythur clinigau sydd eisoes yn bodoli a chomisiynu.
- Y broses o adrodd am luniau a system weinyddu clinigau asesu – gan gynnwys sut y caiff y broses adrodd ei rheoli a gweinyddu apwyntiadau asesu cleifion.
- Trefniadau llywodraethu – sut y mae ICC yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o faterion, yn cymryd camau gweithredu ac yn monitro perfformiad.

Er mwyn asesu'r meysydd a nodir uchod, bydd yr adolygiad yn cynnwys adolygu dogfennau allweddol, dadansoddi'r data sydd ar gael, cynnal arolwg i fenywod sydd wedi cael canlyniad mamogram abnormal a chyfweliadau â staff ICC. Bydd cyfweliadau'r staff yn cynnwys y staff sy'n gweithio ar lefel strategol, staff gweithredol sy'n gweithio yng nghanolfannau sgrinio Bron Brawf Cymru ac unedau symudol. Caiff arolwg staff ei ddatblygu hefyd i'w galluogi i fynegi eu barn a thrafod eu profiadau.

Ni chaiff y meysydd canlynol eu trafod fel rhan o'r adolygiad lleol:

- Y broses o wahodd menywod i apwyntiadau sgrinio cychwynnol
- Hybu a diweddarau gwasanaethau sgrinio Bron Brawf Cymru
- Darparu gwasanaethau sgrinio Bron Brawf Cymru teg
- Darparu canlyniadau i fenywod sydd wedi cael canlyniad clir yn y sgan cyntaf ac sy'n cael eu hadalw mewn tair blynedd
- Y cam trosglwyddo a'r driniaeth ddilynol lle y caiff gofal ei drosglwyddo o ICC i'r Bwrdd Iechyd

Amserlen

Mae'r tabl isod yn rhoi amserlen prosiect yn fras ar gyfer yr adolygiad:

Gweithgaredd	Amserlen
Cynllunio gwaith maes ac adolygu dogfennau	Ionawr 2020
Gwaith maes	Chwefror 2020
Cyhoeddi'r Adroddiad	Mai 2020

Bydd yr adolygiad yn cynnwys pum diwrnod o waith maes, a fydd yn cynnwys ymweld â'r pedair ganolfan sgrinio'r fron ranbarthol a diwrnod ym mhencadlys ICC yng Nghaerdydd.

Dadansoddi ac adrodd

Drwy gydol cam maes gwaith yr adolygiad, bydd tîm yr adolygiad yn rhoi adborth yn y cyfamser os bydd unrhyw faterion sy'n peri pryder dybryd yn codi.

Daw'r adolygiad i ben drwy gyhoeddi adroddiad a fydd yn nodi'r themâu a'r argymhellion allweddol a nodwyd gan ein gwaith maes. Ni chaiff unrhyw wybodaeth a rannwyd gan y staff yn ystod y gwaith maes ei phriodoli'n uniongyrchol iddynt yn yr adroddiad. Hefyd, bydd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o ganlyniadau dienw'r arolwg.

Bydd yr ymddiriedolaeth yn cael copi o'r adroddiad drafft i wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol, yn ogystal â chopi o'r adroddiad terfynol cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Os caiff meysydd i'w gwella eu nodi, bydd angen i ICC lunio cynllun gwella a fydd yn amlinellu sut y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad. Ar ôl ei adolygu, caiff y cynllun gwella ei gyhoeddi ar wefan AGIC ynghyd â'r adroddiad.

Data personol

Mae'r adolygiad hwn yn rhan o waith AGIC i ddarparu sicrwydd annibynnol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan II, Pennod 4) yn rhoi'r pŵer i AGIC gynnal arolygiadau ac adolygiadau o'r GIG neu wasanaethau a ddarperir i'r GIG, ac ymchwilio iddynt.

Mae'r cylch gorchwyl hwn yn amlinellu'r dull adolygu rydym yn bwriadu ei ddefnyddio.

Pan fyddwn yn prosesu data personol, bydd hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn hysbysiad preifatrwydd AGIC ar ein gwefan <https://agic.org.uk/polisi-preifatrwydd>.